wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

CYMORTH GYDA

CHOSTAU GOFAL PLANT

CANLLAW

I FFYNONELLAU CYMORTH

I RIENI SY'N FYFYRWYR

O RAN DEWISIADAU GOFAL PLANT

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam
Wrexham Family Information Service

Cynnwys

	Tudalen
Ffynonellau Cymorth gyda Chostau Gofal Plant i Fyfyrwyr sy'n Rhieni	3
Benthyciadau Datblygu Gyrfa	4
Cronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG)	4
Y Cyfrif Dysgu Unigol (CDU)	5
Prifysgol Agored	5
Lwfans Ceisio Gwaith	5
Cymhorthdal Incwm	6
Ysgoloriaethau	6
Cymorth ar gael I Fyfyrwyr GIG	6
Cymorth ar gyfer Cyrsiau Penodol	6
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam	6
Swyddog Cefnogi Ariannu Gofal Plant	6
Cymorth Gofal Plant Genesis Wales 2	6

Ffynonellau Cymorth gyda Chostau Gofal Plant i Fyfyrwyr sy'n Rhieni

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am gefnogaeth myfyrwyr statudol i fyfyrwyr o Gymru. Mae'r canlynol yn ganllaw yn unig ac nid yw'n cwmpasu pob un o'r amgylchiadau. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, 16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam LL11 1LG, Ffôn 01978 297406 (ebost:student.support@wrexham.gov.uk). Awgrymwn hefyd eich bod yn edrych ar y wefan ganlynol sy'n rhoi gwybodaeth fwy cynhwysfawr am gyllid i fyfyrwyr. *www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk*

- Caiff **Grant Dysgu'r Cynulliad** ei dalu i fyfyrwyr sydd â'u cartrefi yng Nghymru (mae hwn hefyd ar gael i fyfyrwyr sy'n 19 oed a hŷn sy'n astudio mewn addysg bellach ac uwch megis Coleg Iâl). Gallwch dderbyn uchafswm o £5,600 i gynorthwyo gyda chostau cynnal myfyrwyr megis llyfrau, teithio, offer a gofal plant. Bydd pob cais yn amodol ar brawf modd. Nid oes rhaid talu'r grant yn ôl.

- Mae **benthyciadau myfyrwyr** yn cynnwys dwy ran: y benthyciad ar gyfer y ffïoedd dysgu a'r benthyciad cynnal sydd at eich costau byw. Cewch ddechrau ad-dalu eich dyled pan fyddwch wedi gadael y brifysgol neu'r coleg a phan fydd eich incwm yn uwch na £15,000. Mae'r taliadau ar raddfa symudol ac fe'i telir dros amser. Mae'r Llywodraeth yn rhoi cymhorthdal tuag at gost y llog ar y benthyciadau felly, does dim rhaid i chi dalu'r un gyfradd log a phe bai gennych fenthyciad masnachol gan fanc neu gymdeithas adeiladu.

- Mae **Cynllun Bwrsariaeth Cymru** yn grant sy'n amodol ar brawf modd ac sydd ar gael gan sefydliadau addysg uwch Cymru. Y fwrsariaeth leiaf yw £310 y flwyddyn. Bydd sefydliadau unigol hefyd yn darparu ystod o ysgoloriaethau a bwrsariaethau eraill a fydd yn amrywio o sefydliad i sefydliad. Efallai y ceir cymorth ychwanegol os ydych yn astudio proffesiwn addysgu neu feddygol, neu'n astudio dawns a drama mewn coleg preifat. Ceir hefyd fwrsariaethau i fyfyrwyr sy'n astudio Cymraeg mewn colegau eraill yn y DU. Rhaid gofyn i golegau unigol am fanylion.

- Mae'r **Grant Cymorth Arbennig** yn grant nad oes rhaid ei dalu'n ôl i fyfyrwyr sy'n gymwys i dderbyn budd-daliadau sy'n amodol ar brawf modd megis Cymhorthdal Incwm a Budd-dal Tai. Yn gyffredinol bydd hyn yn rhieni unigol, myfyrwyr eraill sy'n rhieni a myfyrwyr gydag anableddau. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr a chynghorir myfyrwyr i gysylltu â'u hawdurdod lleol am gyngor. Ni fydd y Grant Cymorth Arbennig a dderbyniwch yn effeithio ar y Benthyciad Cynhaliaeth sydd gennych hawl i'w dderbyn. Ni fydd ychwaith yn effeithio ar fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fodd bynnag, os ydych yn gymwys i dderbyn grant Cymorth Arbennig ni fyddwch yn gymwys i dderbyn Grant Dysgu'r Cynulliad.

- Mae **Grant Gofal Plant** yn grant nad oes rhaid ei dalu yn ôl i helpu i dalu am gostau gofal plant. Ni allwch dderbyn y grant hwn os ydych chi, neu eich priod/partner yn derbyn elfen Credyd Treth Gwaith gofal plant.

- Bydd **Lwfans Dysgu Rhieni** yn cynorthwyo gyda chostau cwrs i fyfyrwyr cymwys sydd â phlant dibynnol.

- Mae **Grant Oedolion Dibynnol** ar gyfer myfyrwyr llawn amser gydag oedolion dibynnol. (h.y. unigolyn sy'n dibynnu arnoch yn ariannol).

- Bydd cynllun **Lwfans Cynhaliaeth Addysg Cymru** yn rhoi mwyafswm lwfans o £30 yr wythnos i fyfyrwyr sy'n 16-18 oed. Fel rheol mae'r grant yn dibynnu ar incwm y rhiant ond ni chaiff rhieni sydd â chyfrifoldeb dros eu plentyn eu hunain brawf modd ar gyfer y lwfans hwn. *www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk*

Benthyciadau Datblygu Gyrfa (BDG)

Gall BDG dalu tuag at hyd at ddwy flynedd o addysg neu hyfforddiant galwedigaethol (sy'n gysylltiedig â'ch swydd), ynghyd â hyd at flwyddyn os yw'r cwrs yn cynnwys profiad gwaith ymarferol. Gall yr astudio fod yn llawn amser, rhan-amser neu ddysgu o bell. Os na allwch gael unrhyw gymorth i fyfyrwyr trwy eich AALl neu unrhyw gymorth ariannol arall tuag at dalu am y cwrs a fynnwch ei wneud, gallai BDG dalu tuag at gostau gofal plant, llyfrau, defnyddiau ysgrifennu, costau teithio, offer, cyfarpar, deunyddiau, dillad amddiffynnol ac unrhyw gostau cysylltiedig ag anabledd. Gallwch hefyd wneud cais am gostau byw os byddwch yn gweithio llai na 30 awr yr wythnos. Ni fyddwch yn talu dim yn ôl yn ystod cyfnod yr hyfforddiant ac am hyd at fis wedi hynny. Mae'r benthyciad ar gael i'r rhai dros 18 oed yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Llinell Wybodaeth BDG, Rhadffon: 0800 585 505 www.direct.gov.uk/cdi

Cronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG)

Mae'r gronfa hon ar gael i fyfyrwyr **llawn amser a rhan-amser** 16-18 oed (sydd wedi bod yn byw yn y DU am y 3 blynedd diwethaf ar eu hyd cyn dechrau eu cwrs, a'u cartref yn derbyn Budd-daliadau, Credyd Treth Gwaith neu'n derbyn incwm isel) ac i'r rhai sy'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad (ALG) sydd angen cymorth gyda gofal plant a/neu gludiant. Mewn rhai amgylchiadau, gall myfyrwyr Addysg Bellach dros 18 oed hefyd fod yn gymwys i'w dderbyn. Mae ar gael hefyd i fyfyrwyr nad oes ganddynt hawl i dderbyn Grant Dysgu'r Cynulliad.

Sylwch: ni fydd y gronfa hon yn talu am ffïoedd cwrs, nac yn cyfrannu atynt.

Mae cymorth ar gael i:

- ✓ Ofal plant i'r rheiny sy'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad a CAWG.
- ✓ Teithiau a drefnwyd gan y coleg, (rhaid i dderbynnydd y CAWG wneud cais amdanynt ar wahân).
- ✓ Llyfrau ac offer.
- ✓ Cludiant, pan fo hynny'n briodol, i'r rheiny sy'n derbyn Grant Dysgu'r Cynulliad a CAWG.
- ✓ Cymorth anabledd, pan fo hynny'n briodol.
- ✓ Treuliau teithio i gyfweliadau (e.e. ar gyfer AU, clyweliadau, lleoliadau gwaith ac ati y mae'n rhaid i dderbynnydd y CAWG wneud cais amdanynt ar wahân).

Bydd y CAWG yn cael ei dalu o'r Coleg bob tymor gyda siec, yn ddibynnol ar bresenoldeb a safon gwaith da.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag adran lles myfyrwyr y Coleg lle'r ydych yn astudio.

Prifysgol Agored

Mae'r Brifysgol Agored yn brifysgol dysgu o bell a sefydlwyd i ddod ag addysg uwch i bobl nad ydynt yn gallu astudio mewn prifysgol gonfensiynol. Gall pobl ddewis pryd a lle i astudio. Mae'n berffaith ar gyfer pobl gyda swyddi, plant, anableddau, neu ymrwymiadau sy'n ei gwneud hi'n anodd mynd i fan penodol. Nid oes angen unrhyw gymwysterau blaenorol ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyrsiau. Ceir hefyd gymorth ariannol i bobl ar incwm isel i dalu am ffioedd y cyrsiau, costau gofal plant ac ati. Am ragor o wybodaeth ewch i *www.open.ac.uk* Ffôn 0845 300 6090

Lwfans Ceisio Gwaith

Os ydych yn ddi-waith ac yn astudio'n rhan-amser efallai y bydd gennych hawl i Lwfans Ceisio Gwaith, cyn belled â bod eich cwrs yn llai na 16 awr yr wythnos ac y gallwch ddangos eich bod yn parhau i fod ar gael i weithio.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Canolfan Byd Gwaith Tel: 0845 6043719 www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Cymhorthdal Incwm

Os ydych yn rhiant unigol ac yn derbyn cymhorthdal incwm neu fudd-dal analluogrwydd ac yr hoffech wella eich addysg neu sgiliau yna gallwch gysylltu â'ch Ymgynghorydd Rhieni Unigol yn y Ganolfan Byd Gwaith a fydd yn gallu eich cynghori am unrhyw gymorth ariannol y mae gennych hawl iddo.
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Canolfan Byd Gwaith, Tŷ Maelor, 15-17 Ffordd Grosvenor, Wrecsam LL11 1LH Ffôn: 01978 316500 www.canolfanbydgwaith.gov.uk

Ysgoloriaethau

Efallai y bydd ysgoloriaethau a ariennir gan gyflogwyr, banciau neu gyrff dyngarol eraill ar gael ar gyfer rhai cyrsiau neu golegau. Ewch i http://www.scholarship-search.org.uk. Hefyd gweler adran gyllid y brifysgol lle rydych yn ceisio lle gan fod bwrsariaethau ac ysgoloriaethau penodol y gallant eu cynnig yn aml. Mae gan www.turn2us.org gronfa ddata o ymddiriedolaethau elusennol bychan a all gynnig niferoedd bychan o grantiau un-tro i fyfyrwyr sy'n profi anawsterau ariannol neu anawsterau eraill.

Cymorth ar gael i Fyfyrwyr GIG

Mae Uned Dyfarniadau i Fyfyrwyr GIG Cymru yn gweithredu Cynlluniau Bwrsariaethau GIG Cymru sy'n rhoi cyllid i fyfyrwyr gofal iechyd ar gyrsiau a ariennir gan GIG yng Nghymru a myfyrwyr meddygol a deintyddol Cymreig sy'n byw yn y DU. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Uned Dyfarniadau i Fyfyrwyr GIG Cymru am fwrsariaethau ac er mwyn derbyn y llyfryn Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr Gofal Iechyd yng Nghymru. Ffôn 029 20196167 *www.wales.nhs.uk*

Cymorth ar gyfer Cyrsiau Penodol

Efallai y ceir cymorth ychwanegol ar gyfer cyrsiau penodol megis hyfforddiant athrawon, gwaith cymdeithasol, Atodiad Cymhelliant Cyfrwng Cymraeg a chyrsiau dawns a drama penodol mewn addysg uwch. Cysylltwch â'ch coleg am ragor o wybodaeth. Ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon ceir rhestr o wefannau defnyddiol.

Cefnogaeth hyfforddiant athrawon 0845 6000991 Llinell Gwybodaeth Dysgu Cyfrwng Cymraeg 0845 600 0992

GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD

Rydym yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor AM DDIM ar bob agwedd o ofal plant a gwasanaethau i blant a phobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Llyfrgell a Chanolfan Gelf Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam LL11 1AU. Ffôn: 01978 292 094, ebost: fis@wrexham.gov.uk.

Swyddog Cefnogi Ariannu Gofal Plant

Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ynglŷn â materion ariannu gofal plant cysylltwch â Lynne Mort, Swyddog Cefnogi Ariannu Cymorth Plant ar 01978 298343 neu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam ar 01978 292094 (ebost: fis@wrexham.gov.uk). Gallwch hefyd gael gwybodaeth bellach ar www.wrexham.gov.uk/fis.

Prosiect Genesis Wales 2

Dyma Brosiect a ariennir gyda chyllid Ewropeaidd sy'n helpu rhieni di-waith i oresgyn rhai o'r anawsterau y maent yn eu hwynebu pan fyddant am ddysgu sgiliau newydd, cael hyfforddiant neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r Prosiect yn canolbwyntio ar rieni unigol yn bennaf. Gall y Prosiect roi cyngor ac arweiniad am ddim, eich helpu i fagu hyder a gofal plant am ddim neu gymorthdaledig i'r rhai sy'n gymwys i'w dderbyn.
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Thîm Genesis Wrecsam: Gwasanaeth Gwybodaeth I Deuluoedd Wrecsam*ar 01978 298341 / 292094 www.genesiswales.co.uk*

Agor Drysau

Gall Agor Drysau helpu rhieni sy'n ddi-waith neu ar incwm isel i gymryd camau tuag at well dyfodol. Gall Agor Drysau helpu rhieni i gael hyfforddiant drwy eu helpu i ddod o hyd i hyfforddiant a thalu amdano, gofal plant cymorthdaledig am fis, a chostau teithio am fis. Gall Agor Drysau hefyd helpu rhieni sydd â phlant gyda phroblemau iechyd tymor hir neu anableddau i ddod o hyd i ofal plant addas ac arbennig i'w galluogi i gael hyfforddiant neu ddod o hyd i waith.

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01978 298342/292094.

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am gynnwys unrhyw wefan allanol.